

Seren y stori

“A dyma lais o’r nefoedd yn dweud, ‘Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd.’” (adn. 17)

Beth am ddarlenn Mathew 3:13–17 ac yna myfyrio

Treuliwn ddiwrnod ymhellach yn ystyried goblygiadau’r ffaith mai Iesu ydy’r cymeriad canolog yn stori fawr Duw. Ceir rhai sy’n anesmwyth gyda rhoi’r rhan ganolog i Iesu mewn Cristnogaeth, ac yn gweld Cristnogaeth yn unig fel cyfundrefn foesegol. Soniant am egwyddorion dyrchafol y Bregeth ar y Mynydd, y Rheol Aur, ac felly ymlaen, gan anghofio bod yr egwyddorion yn y Bregeth ar y Mynydd yn amhosibl eu cadw heb bresenoldeb Crist yn ein bywyd. Fel y dywedais i lawer gwaith o’r blaen, pan gyflwynodd Iesu’r egwyddorion a amlinellir yn y Bregeth ar y Mynydd doedd o ddim yn dweud, “Byw fel hyn ac mi ddoi yn Gristion;” ond yr hyn roedd o’n ei ddweud oedd, “Tyrd yn Gristion ac mi fyddi byw fel hyn.” Allwch chi ddim tynnu dysgeidiaeth Iesu ar foesoldeb o ganol y cyfan a’i chyflwyno ar ei phen ei hun.

Dydy hi’n gwneud dim synnwyr sôn am foeseg Gristnogol ac anwybyddu Crist. Allwch chi ddim cymryd geiriau Iesu a chymryd arnoch mai geiriau unrhyw berson da arall ydyn nhw. Sut fyddai hi’n ein taro ni pe byddai unrhyw ddyn arall, faint mor fawr bynnag fyddai hwnnw, yn dechrau sôn amdano’i hun yn yr un ffordd â Iesu? Pe byddai Tony Blair, er enghraifft, yn dweud: “Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd?” Neu pe byddai rhyw gymeriad arall byd-enwog sy’n byw yn dda yn honni: “Cyn Abraham yr wyf i?” Nid eu stori nhw ydy honno. Mae’r llinellau hynny’n perthyn i un person ac i un person yn unig – ein Harglwydd Iesu Grist.

Mae’r rheiny sy’n edrych ar Gristnogaeth fel dim mwy na dysgeidiaeth foesol yn methu’r pwynt. “Cristnogaeth,” meddai un diwinydd, “ydy Crist.” Ynndo ef mae holl wirioneddau’r Hen Destament yn crynhoi ac ohono ef mae holl wirioneddau’r Testament Newydd yn ymddangos. Ef yw canol llonydd y Beibl, hanfod yr Efengyl, *seren stori Duw*.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Heb. 1:3–4; 1:8; 3:3–6;

1 Tim. 2:5–6

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Hebraid yn ein dysgu am ragoriaeth Iesu?
2. Sut mae Timotheus yn darlunio unigrywiaeth Iesu?

Gweddi

O Dad, gyda gostyngedd rwy’n addef nad seren dy stori di yn unig ydy Iesu, ond seren fy stori innau hefyd. Hebdo ef dydw i’n ddim. Yn union fel y bu i tithau orfoleddu yn dy Fab, yr wyf innau’n gorfoleddu ynndo hefyd. Amen.